# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2020

Amser: 10.00 - 10.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/6477) yn:

http://senedd.tv/cy/6477

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd cadarnhad gan y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol i'w sifftio ac sy'n awr yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 2.1 SL(5)664 – Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)669 – Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol a Chynllunio Gwlad a Thref (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 3.1 SL(5)667 – Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

### 3.2 SL(5)668 – Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

### 3.3 SL(5)676 – Gorchymyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Trallwng (Newid Amserau Sesiynau Ysgolion) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon ag ef.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 a 21.3

### 4.1 SL(5)662 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac, yn dilyn eglurhad gan gynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor, fe gytunodd i ddiwygio'r pwynt adrodd a nodwyd yn yr adroddiad drafft cyn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Senedd.

### 4.2 SL(5)663 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd ac i nodi'r materion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

### 4.3 SL(5)678 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(5)671 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(5)675 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Hefyd, nododd y Pwyllgor y bydd y Gorchymyn yn cael ei dynnu yn ôl a'i ailosod.

## 5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd

### 5.1 SL(5)665 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i’r Senedd i nodi materion sy’n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd.

## 6 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd yn flaenorol

### 6.1 SL(5)666 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 7.1 WS-30C(5)206 - Rheoliadau Hadau (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a’r sylwebaeth.

## 8 Papurau i’w nodi

### 8.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 8.2 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 8.3 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Ariannol, a hynny gan gytuno arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cysyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol, gan gytuno i drafod adroddiad drafft yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig

Nododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, gan nodi hefyd y byddai'r ddadl ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Rhagfyr 2020.